Annwyl Elinor Williams,

Ysgrifennaf i ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar 'Leolrwydd ar Radio Masnachol', a hynny er mwyn chwilio am sicrwydd ynglŷn â'r oriau a ddarlledir yn Gymraeg ar Capital yma yn y Gogledd Orllewin.

Bu sefydlu Champion FM fel yr orsaf radio masnachol gyntaf yn yr ardal yma 'nôl yn niwedd y 1990au yn lwyddiant mawr o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed yn naturiol ar radio masnachol. Daeth clywed y Gymraeg yn cael ei siarad, a chlywed cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae yn naturiol, ochr yn ochr â cherddoriaeth ryngwladol Saesneg, â normalrwydd llwyr i le'r Gymraeg ar ein tonfeddi. Roedd yn ffitio'n gysurus ochr yn ochr a darllediadau'r BBC ar Radio Cymru, er mwyn sicrhau bod 'rhywbeth i bawb' yn Gymraeg ar y radio.

Bellach, mae'r orsaf wedi mynd drwy sawl enw – daeth yn Heart FM ac yna'n Capital, ac yn anffodus symudwyd y ganolfan ddarlledu o'r gogledd orllewin, draw i Wrecsam. Ond i'r gwrandawr, cadwyd yr elfen greiddiol ddwyieithog, ac efallai mai prin yw'r gwrandawyr sy'n sylweddoli nad yw'r rhaglenni'n cael eu cynhyrchu yn eu milltir sgwar.

Ond ag Ofcom bellach yn ymgynghori ar Leolrwydd, mae rhai sydd â chysylltiadau agos â Capital wedi cysylltu i fynegi eu pryder am yr hyn allai hyn ei olygu i natur ieithyddol yr orsaf. Ar hyn o bryd, rwy'n deall bod 10 awr y dydd yn cael ei ddarlledu yn Gymraeg Llun-Gwener, a 7 awr ar ddyddiau Sadwrn a Sul. Mae'r darllediadau hyn yn cynnwys y prif oriau brig, ac yn gwbl allweddol o ran darpariaeth masnachol yn Gymraeg.

Rwy'n deall mai ymgynghori ar leolrwydd ydi hyn, ac nid ymgynghori ar fformat, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig defnyddio'r cyfle hwn i atgoffa Ofcom o'r angen i warchod yr elfen Gymraeg a dwyieithog a pheidio caniatau i hynny gael ei effeithio'n negyddol gan unrhyw benderfyniadau ar ddad-reoleiddio. Does prin angen dweud bod angen ehangu, nid crebachu ar ddarpariaeth Gymraeg ar radio masnachol wrth i ni geisio symud tuag at wireddu'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, sy'n darged Llywodraeth yn ogystal a bod yn nod sydd â chefnogaeth sifig eang.

Ond rhaid hefyd pwysleisio y dylid gweld diffiniad Ofcom o 'lleol' mewn goleuni gwahanol iawn yng Nghymru o'i gymharu a'r cyd-destun Prydain-gyfan. Efallai mai bwriad Ofcom drwy ailddiffinio lleolrwydd yn Lloegr yw atal popeth rhag cael ei gynhyrchu yn Llundain yn y pen draw, ond dylid cymryd camau i geisio sicrhau nad yw'n anochel bod popeth Cymreig yn llifo i Gaerdydd 'chwaith. Dyna'r peryg o greu Cymru yn un 'ardal leol'.

Yn y pen draw, fy marn i yw bod angen datganoli darlledu. Dyna sut y gallwn warchod ein buddiannau ein hunain ar donfeddi Cymreig, ond tra disgwyliwn am hynny, gofynnaf i chi yn Ofcom roi ystyriaeth o ddifri i'r sylwadau hyn.

Yn gywir

Rhun

**RHUN AP IORWERTH**
**Aelod Cynulliad Ynys Môn / Assembly Member for Ynys Môn**
**Ysgrifennydd Cysgodol Plaid Cymru dros Iechyd/**
**Plaid Cymru Shadow Secretary for Health**